

## SICRHA MAI JEHOFA YW DY GAER DI

### *Nodyn i'r siaradwr:*

Esbonia fod gwneud Jehofa yn gaer inni yn cynnwys pob agwedd ar fywyd. O ymostwng nawr i gyfarwyddyd Duw ac o ymddiried yn llwyr ynddo gallwn ennill ei ffafr, a'r gobaith o oroesi'r gorthrymder mawr

### **HEB I JEHOFA FOD YN GAER INNI, NID OES DYFODOL** (6 mun.)

Mae'r Beibl yn darogan dyfodiad gorthrymder mawr, "argyfwng gwaeth nag unrhyw beth welwyd erioed" (Mth 24:21)

Dinistr gau grefydd fydd cychwyn yr argyfwng (*w15-E 7/15 15 ¶4*)

Bydd cynghrair o genhedloedd yn ceisio difa pobl Duw (*w15-E 5/15 29-30*)

Bydd pob un o wrthwynebwyr Jehofa yn cael ei ddifa (Dat 19:11-21)

Pwy fydd yn goroesi'r digwyddiadau erchyll hyn?

Y nhw sydd â'r gaer go iawn

Castell neu ddinas gref yw caer, man llochesol

Yn ystod y gorthrymder mawr bydd y mwyafrif yn ceisio cysgod cyfundrefnau dynol (Dat 6:15-17; *w15-E 7/15 16 ¶7*)

"Y rhai sy'n troi ato am help" bydd yr unig oroeswyr, medd Gair Jehofa [**Darllen Nahum 1:6, 7**]

Os dymunwn i Jehofa fod yn gaer inni yn y dyfodol, mae'n rhaid sicrhau ei fod yn gaer inni nawr

### **GWEITHIWC H YN GALED I ENNILL CYMERADWYAETH JEHOFA** (14 mun.)

I ennill cymeradwyaeth Jehofa, o'n gwirfodd rhaid inni ymostwng i'w gyngor ar bob agwedd o'n bywydau (Dia 3:5, 6)

Ni ddylwn ni gyfeirio ein hunain yn annibynnol, na dilyn hynt y byd hwn a'i agweddau (Dia 14:12)

*Pleidiwch gyfreithiau moesol Duw a'i egwyddorion*

I ennill ffafr Duw mae'n rhaid inni fyw yn iawn [**Darllen Diarhebion 10:29**]

Mae'r rhai sydd â Jehofa yn gaer iddyn nhw yn cefnu ar "anfoesoldeb rhywiol" a "blys" (Col 3:5)

Nid yw Cristnogion sengl yn ymdrin â chanlyn fel chwarae bach (*yp2-E 14-20*)

Os ydyn nhw yn canlyn, maen nhw'n osgoi pechu'n rhywiol (1The 4:4-7; *w15-E 1/15 32 ¶16*)

Mae Cristnogion priod yn gwrthod fflyrtian neu feithrin perthnasau amhriodol tu allan i'w priodas

*Peidiwch â blaenoriaethu pethau materol yn lle eich perthynas â Duw*

Camgymeriad rhai yw gweld cyfoeth fel petasai'n gaer [**Darllen Diarhebion 18:11**]

Ond meddai Iesu: "Ni allwch wasanaethu Duw a Mamon" (Mth 6:24)

Mae'r rheini sy'n ymddiried yn Jehofa yn cadw cytundeb busnes ac yn cefnu ar dwyll (Dia 11:1; Heb 13:18)

*Rhowch wneud ewylllys Duw yn flaenoriaeth ichi*

Paid ag ymgolli yn eich bywyd teuluol, pleser neu adloniant, fel eich bod yn esgeuluso gwneud ewylllys Duw

Adnabyddwch arwyddocâd yr amseroedd tyngedfennol sydd nawr (1Co 7:29-31; *w15-E 10/15/20 ¶7-8*)

### **DIBYNNWCH AR JEHOFA YN YSTOD AMSEROEDD ENBYD** (7 mun.)

Gall Jehofa ddangos ei fod yn gaer inni, yn enwedig wrth inni wynebu trafferthion [**Darllen Salm 37:39, 40**]

Os ydych chi'n ymdopi ag *afiechyd difrifol*, yna trowch at Jehofa am ddoethineb a chymorth

Profodd y ffyddloniaid Paul a Timotheus afiechyd a phroblemau corfforol (Ga 4:12-15; 1Ti 5:23)

Ni chafodd Paul na Timotheus gwellhad gwyrthiol, cawson nhw nerth gan Dduw i barhau yn Ei wasanaeth (Php 4:13)

Os yw *ffrae gyda chyd-addolwr* yn eich poeni, ymostyngwch eich hun i gyfarwyddyd Jehofa

Ymatebwch i'r sefyllfa mewn ffordd sy'n hyrwyddo heddwch (Col 3:13; *lv 33-34 ¶16-18*)

Os wynebwch *wrthwynebiad neu erledigaeth*, ymddiriedwch yn Jehofa iddo eich nerthu a'ch achub

Byddwch yn sicr fod Duw yn gwrandao ar eich ymbiliadau am help (Sal 18:2, 6)

Ni all yr un gwrthwynebydd rwystro Jehofa rhag iddo achub ei ffyddloniaid (Sal 18:16-19)

### **BYDD JEHOFA'N DEYRNGAR I'R RHEINI SYDD AG EF YN GAER IDDYN NHW** (3 mun.)

Mae Jehofa yn boddhau ein hanghenion beunyddiol nawr, ac yn ein sicrhau fod bywyd tragwyddol ar y gorwel

Drwy'r atgyfodiad, bydd Duw yn profi'n deyrngar i'r rhai sy'n ffyddlon hyd at farwolaeth (Act 24:15, 16)

Os, heb amau, gwnewch Jehofa yn gaer ichi nawr, yna byddwch chi'n llawenhau am byth (Sal 5:11, 12)

[Glyna'n agos wrth y deunydd yn yr amlinelliad, a chadwa at yr amser a nodwyd ar gyfer pob rhan. Does dim angen darllen na thrafod pob testun y cyfeirir ato. Gweler y llyfr *Ministry School*, tudalennau 52-55, 166-169]